



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Cyfleoedd Secondiad: Tîm Uwchradd

CYFLEOEDD AM SECONDIAD I BENAETHIAID AC UWCH ARWEINWYR WEITHIO FEL RHAN O DÎM GWELLA YSGOLION UWCHRADD RHANBARTHOL

Mae GwE yn chwilio am benaethiaid ac uwch arweinwyr uwchradd i ymuno â'r gwasanaeth ar delerau secondiad llawn amser neu ran amser.

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00 o'r gloch, Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018** at [anwengwilym@gwegogledd.cymru](mailto:anwengwilym@gwegogledd.cymru)

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Elfyn Jones, Uwch Arweinydd – Uwchradd ar 07557 759240 neu e-bost [elfynjones@gwegogledd.cymru](mailto:elfynjones@gwegogledd.cymru)

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Categoreiddio Cenedlaethol 2017-2018

Cwblhawyd y broses Safoni a Chymedroli Rhanbarthol ym mis Rhagfyr er mwyn sicrhau gweithrediad cyson y drefn categoreiddio genedlaethol ar draws y pedwar consortiwm rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol perthnasol.

[Darllenwch ragor yma...](#)

## Cynhadledd Llwyddiant i Bawb: Creu Diwylliant "Ysgolion sy'n Meithrin" o fewn Sefydliadau

DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Bydd GwE yn cynnal Cynhadledd i godi ymwybyddiaeth o'r themâu allweddol sy'n codi yn y maes lles, o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal/dysgwyr bregus, a chysylltiadau â chodi cyflawniad addysgol.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

**Mae'r ddolen i gofrestru nawr yn fyw.** Mynnwch eich lle!

**DYDDIAD CAU COFRESTRU: 09/02/2018**

## Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

**Llafaredd GwE ★NEWYDD★**

*"MAE SIARAD A GWRANDO WRTH WRAIDD IAITH – YN SYLFEINI AR GYFER DARLLEN AC YSGRIFENNU, AC YN SGILIAU HANFODOL I FEDDWL A CHYFATHREBU."* EDUCATION ENDOWMENT FOUNDATION, 2015.

Gwahoddir ceisiadau gan ysgolion i gymryd rhan mewn prosiect arbenigol, **Llafaredd GwE (Oracy@GwE)** er mwyn cael plant i wneud mwy o gynnydd yn eu dysgu drwy ddatblygu Llafaredd. Canolbwyntir yn arbennig ar *Talk for Maths*, sef prosiect ymchwil gweithredol, a ariennir yn llawn gan dîm Llythrennedd a Rhifedd GwE.

**DYDDIAD CAU: DYDD LLUN, 5 CHWFROR 2018**

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

**Talk4Writing – Ysgrifennu Ffeithiol i'r Cyfnod Sylfaen/CA2**

## Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

**Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd**

Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith Llythrennedd lleol y tymor hwn, er mwyn i Arweinwyr Llythrennedd rannu arferion da a thrafod datblygiadau i'r dyfodol.

[Cliciwch yma](#) am restr o'r dyddiadau a lleoliadau.

**Cwrs Cymraeg**

**DYDD MERCHER, 28 CHWFROR 2018 – GLASDIR, LLANRWST**  
Cwrs i athrawon sy'n addysgu Cymraeg wedi'i anelu at ANG a hefyd athrawon sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'w pwnc arferol. Cyfranwyr: Ymarferwyr rhagorol o'r rhanbarth gan gynnwys Llio Japheth o Ysgol Dyffryn Conwy. Bydd arweiniad ar addysgu gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu yn llwyddiannus.

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gael hyfforddiant swyddogol eto ar Talk4Writing.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## [Darllen Dan Arweiniad a Darllen yn](#)

### [Drawsgwricwlaidd yn CA2](#)

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gymryd rhan mewn gweithdy hyfforddiant sy'n ceisio cyfoesi ac adnewyddu'r gweithgareddau darllen ar lefel uwch, Darllen dan Arweiniad, a darllen yn drawsgwricwlaidd yn CA2.

[Parhewch i ddarllen yma...](#)

## [Gwaith Ymchwil Gweithredol Cynradd – Ennyn diddordeb grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni mewn mathemateg gan](#)

### [ddefnyddio IZak9](#)

Gwahoddir ceisiadau gan ysgolion unigol/grwpiau o ysgolion/clwstwr o ysgolion, i gymryd rhan mewn prosiect cyffrous sy'n defnyddio'r adnodd masnachol IZak9 i ddatblygu rhuglder disgyblion gyda rhifau, eu sgiliau datrys problemau a'u gallu i resymu, gan ddefnyddio dull arloesol a chydweithredol.

[Darllenwch fwy yma...](#)

**DYDDIAD CAU: DYDD IAU, 25 IONAWR 2018 \*CYFLE OLAF I DDATGAN DIDDORDEB\***

## [Safoni, Cymedroli a'r Camau Nesaf yn y CS](#)

[Cliciwch yma](#) i gofrestru ac i weld rhestr o ddyddiadau a lleoliadau'r gweithdai cyfrwng Cymraeg.

[Cliciwch yma](#) am restr o'r gweithdai Saesneg.

**DYDDIAD CAU COFRESTRU: 5 O'R GLOCH, 29 IONAWR 2018**

## [Cymhwysedd Digidol](#)

Mae'r system gofrestru ar gyfer cyrsiau cymhwysedd digidol bellach yn fyw. [Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau hyd at ddiwedd Mawrth 2018.

## [Hyfforddiant Mr P ar gyfer Athrawon Cyfnod](#)

### [Sylfaen](#) ★NEWYDD★

**DYDD GWENER, 23 MAWRTH 2018 – Tŷ MENAI, BANGOR – 9:00YB-4:00YP**

Mae GwE yn cynnig cyfle arbennig i athrawon y Cyfnod Sylfaen fynychu hyfforddiant gyda Mr P. Cewch gyfle i ddysgu am amrywiaeth o syniadau ar sut i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu drwy ddefnyddio technoleg symudol ac offer ar-lein.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

## [Digwyddiad Dysgu Digidol](#)

Dyma gyfle gwych i holl staff eich ysgol ddod i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf ym maes dysgu digidol mewn digwyddiad ar ôl ysgol. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

## [Diwrnod Syrthio Mewn Cariad â'r](#)

### [Celfyddydau 2](#)

**Ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2**

Yn dilyn llwyddiant aruthrol y digwyddiad yn 2017, dyma gyfle gwych eto i Athrawon Ysgolion Cynradd baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Dysgu Creadigol Newydd.

I gofrestru, cysylltwch ag [eirianharris@gwegogledd.cymru](mailto:eirianharris@gwegogledd.cymru)  
Lle i 20 yn unig felly y cynta' i'r felin...

[Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma.](#)

## Hyfforddiant Into Film

Mae Into Film a GwE yn cynnal cwrs creu ffilm ar gyfer athrawon CA2. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

## Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

### GWYBODAETH BWYSIG I CALU A CHYMORTHYDDION DYSGU

#### A. “Cyfathrebu, Gwaith Tîm ac Arwain Eraill,”

**15 a 20 Mawrth 2018**

Rhaglen newydd undydd ar gyfer cymorthyddion dysgu a CALU sy'n cefnogi ac yn arwain ar brosiectau ysgol a/neu sy'n rheoli eraill yn yr ysgol.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

#### B. Cynhadledd CALU, 2 Mawrth 2018, Venue Cymru, Llandudno

Cynhadledd i gymorthyddion dysgu **sydd eisoes â'r statws CALU**. Cyfle i gael wybodaeth gyfredol am: y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol; statws proffesiynol; rolau Cymorthyddion Dysgu; Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau newydd.

Ni fydd unrhyw gost i fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

## Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

### Hyfforddiant Estyn i Arolygwyr Cymheiriaid

#### Presennol ★NEWYDD★

**DYDD IAU, 22 MAWRTH 2018 – LLYNDR HALL, WRECSAM**

Mae cyfle olaf i hyfforddi yn cael ei gynnig ar 22 Mawrth, naill ai yng ngwesty Llyndir Hall, Wrecsam neu yn Stadiwm Dinas Caerdydd, i arolygwyr cymheiriaid presennol sydd heb hyfforddi yn unol â'r fframwaith arolygu newydd. Ni fydd Estyn yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid oni bai eu bod wedi mynychu'r hyfforddiant hwn. Mae manylion cofrestru wedi'u hanfon at bawb sy'n gymwys, ond os nad ydych wedi'u derbyn eto, cysylltwch â [digwyddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:digwyddiadau@estyn.llyw.cymru).

#### Gweithdai “Cynllunio, Gwneud, Adolygu.”

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yw'r llwyfan pennaf ar gyfer eich dysgu proffesiynol. Wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru (drwy CGA) fel e-bortffolio cenedlaethol wedi'i safoni, gellir ei ddefnyddio i gofnodi a myfyrio ar eich datblygiad proffesiynol.

Bydd y sesiwn hon, a ddarperir gan y CGA ac sy'n agored i holl ymarferwyr, yn dangos i chi sut i ddatblygu portffolio yn gyflym ac yn hawdd.

Am ragor o wybodaeth, i gofrestru ac am restr o ddyddiadau a lleoliadau, [cliciwch yma](#).

### Cyflwyniad i Golled a Phrofedigaeth ar gyfer Ysgolion

**DYDD MAWRTH, 6 CHWEFOR 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

Hyfforddiant undydd a hwylusir gan *Child Bereavement UK*.

Bydd yr hyfforddiant yn gyflwyniad i golled a phrofedigaeth gyda ffocws ar ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a chymorth y gall ysgolion ei weithredu gyda dysgwyr.

[Cliciwch yma](#) i gofrestru.

## Dysgu Digidol

### Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018 - Gwobr Disgybl Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol

Cynhelir Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018 unwaith eto ym mis Mehefin.

[Cliciwch yma i ddarllen mwy...](#)

### Secstio: Ymateb i achosion a diogelu dysgwyr. Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol yng Nghymru

Dymuna GwE dynnu eich sylw at ganllawiau dwyieithog newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru, wedi cael eu cyhoeddi yn ddiweddar o dan y pennawd uchod.

[Cliciwch yma am ragor o wybodaeth...](#)

# Hysbysebion a Newyddion

## [Ewch i Weld: Rhyfel Byd Cyntaf](#) ★NEWYDD★

Gall ysgolion nawr wneud ceisiadau i fynd â dysgwyr i weithgaredd sy'n berthnasol i'r Rhyfel Byd Cyntaf, neu'n ei goffáu, a hynny drwy gronfa Ewch i Weld. Bwriad y gronfa yw rhoi mynediad i ysgolion i brofiadau creadigol sy'n cyfoethogi'r addysgu.

[Cliciwch yma i ddarllen mwy...](#)

## [Arolwg Gwybodaeth Ysgolion gan Adeiladwyr Kier](#)

Mae Alan Waldron yn ymchwilydd gyda Chanolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).

Mae'n gofyn yn garedig a fyddai modd i chi ymateb i'r [holiadur byr hwn](#) ar ran grŵp Kier.

Am ragor o fanylion am yr holiadur, [cliciwch yma](#).

## [Prosiectau Llafaredd BookTrust Cymru](#)

[Cliciwch yma](#) am ddiweddariad llawn ar gynnydd prosiectau llafaredd BookTrust Cymru.

## [Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018](#)

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Gymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

COFRESTRU CEISIADAU ERBYN: 2 CHWEFOR 2018

**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

**[GwEGogledd.Cymru](#)**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

